Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais
# Blaendulais
# Castell Nedd
# SA10 9AA

## Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais ym mhentref Blaendulais, sydd ym mhen uchaf Cwm Dulais i'r gogledd o Gastell-nedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal Blaendulais a'r cyffiniau yn bennaf. Daw o dan ofal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r ysgol yn derbyn plant o'r holl ystod allu ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 118 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.

Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a dysgu yn yr ysgol a disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Daw 96% o ddisgybl o gartrefi ble ni siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Mae tua 9% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae tua 18% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2008. Ers hynny, bu newid sylweddol o ran staff. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais yn 2013-2014 yw £3,506. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot yw £8,492 a'r lleiafswm yw £2,668. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais yn safle 37ain o'r 70 ysgol gynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar agweddau cadarnhaol at waith ac yn gweithio'n gynhyrchiol yn y gwersi;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg;
- medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryf;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn gwrtais;
- ansawdd yr addysgu yn effeithiol;
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar; a bod
- y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel, gyda threfniadau effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer unigolion.

Fodd bynnag:

- yn gyffredinol, nid yw perfformiad yr ysgol dros y pum mlynedd ddiwethaf yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg; ac
- nid yw presenoldeb disgyblion dros y pedair blynedd ddiwethaf yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a systemau rheolaeth effeithiol;
- yr holl staff yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm i wella deilliannau'r disgyblion;
- prosesau effeithiol yn bodoli i olrhain cynnydd disgyblion o bob gallu;
- prosesau hunanarfarnu yn drwyadl ac yn canolbwyntio ar wella safonau'r disgyblion; a bod
- y cynllun datblygu effeithiol yn deillio o'r hunanarfarniad a system rheoli perfformiad cadarn.

## Argymhellion

A1 Codi safonau cyflawniad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Ymestyn uwch fedrau darllen disgyblion yn y ddwy iaith

A3 Codi lefelau presenoldeb y disgyblion

A4 Sicrhau bod y ddarpariaeth yn caniatáu i ddisgyblion ar bob lefel gallu i gyrraedd eu potensial

A5 Sicrhau bod y corff llywodraethol yn datblygu eu harbenigedd ymhellach ac yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar y cyfan, mae medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn is na'r disgwyl. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, yn ôl eu gallu, ym mhob un o'r meysydd dysgu.

Mae safonau llafar y disgyblion yn y Gymraeg yn gadarn gyda bron pob disgybl yn siarad yn gynyddol gywir a hyderus erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion hefyd yn datblygu'n dda.

Mae medrau darllen y disgyblion ar y cyfan yn datblygu'n briodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn unol â'u hoedran a'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gynyddol gywir, ond nid ydynt yn defnyddio'r holl uwch fedrau darllen yn hyderus. Mae ychydig ohonynt yn darllen heb fynegiant priodol ac nid ydynt yn ddigon hyderus i drafod cynnwys eu llyfrau darllen yn estynedig.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol mewn amrywiaeth o destunau, gan amrywio brawddegau a defnyddio geirfa ehangach. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu at wahanol ddibenion yn effeithiol yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn rheolaidd i ailddrafftio eu gwaith i safon uchel. Mae safon llawysgrifen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn cyflwyno'u gwaith yn daclus iawn.

Mae medrau rhifedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddefnyddio'u medrau rhifedd yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn creu bondiau rhif ymestynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn gallu defnyddio'u gwybodaeth am rif yn gynyddol hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn datrys problemau mathemategol heriol a thrafod elw a cholled mewn ymarferion prynu a gwerthu yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y pynciau gan gynnwys arbrofion gwyddonol.

Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Ar y cyfan, mae disgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd da, ond nid ydynt bob amser yn cael eu hymestyn ar draws yr holl bynciau.

Mae'r niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Yn 2013, roedd perfformiad y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig (deilliant 5 neu uwch) a'r deilliant uwch (deilliant 6 neu uwch) mewn medrau llythrennedd, mathemateg a phersonol yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen wedi gwella'n sylweddol. Fodd bynnag, o gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yr ysgol ar draws y meysydd dysgu yn gyffredinol yn ei gosod yn y 25% isaf am y ddwy flynedd diwethaf. Roedd perfformiad y disgyblion yn 2013 yn llawer uwch o gymharu â'u perfformiad yn 2012. Yn 2013, roedd perfformiad disgyblion mwy abl yn neilliant 6 mewn datblygiad iaith yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg, ond roedd perfformiad mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol yn ei gosod hi yn y 25% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Dros y ddwy flynedd diwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 hefyd yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf. Er bod perfformiad ar gyfer yr holl bynciau ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch am y pum mlynedd ddiwethaf yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, roeddent yn y 25% isaf o ysgolion tebyg am dair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Ar y lefel uwch, roedd perfformiad yr ysgol yn y Gymraeg wedi codi ac yn symud yr ysgol i'r 50% uwch am dair o'r pum mlynedd diwethaf, ond roedd perfformiad yr ysgol am y pynciau eraill yn ei gosod hi yn y 25% isaf am bedair o'r pum mlynedd diwethaf.

Nid oes digon o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau am ddim yn yr ysgol i wneud dadansoddiad rhwng eu cyrhaeddiad hwy a'u cymheiriaid. Yn gyffredinol, roedd perfformiad y merched yn well na'r bechgyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, roedd perfformiad y bechgyn yn well na'r merched mewn datblygiad lythrennedd a mathemateg ar y lefel uwch yn y Cyfnod Sylfaen.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o fwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd ymarfer corff. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau i hybu hyn ymhellach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn ymwybodol o bwy i droi ato am gyngor a chymorth, os bydd ei angen.

Mae llais y disgybl yn cael lle amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn effeithiol, egnïol a gweithgar. Mae hyn wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau o fywyd yr ysgol ac ar y gymuned ehangach. Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol drwy gyfrannu at ystod o weithgareddau yn eu cymuned leol.

Trwy'r ysgol, mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd ac eraill. Mae cynllun 'Bydis Blaendulais' yn ffordd effeithiol o sicrhau bod y disgyblion ieuengaf yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr annibynnol da a

gwelir hyn yn yr hyder sydd ganddynt i ddewis eu gweithgareddau yn annibynnol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r blaengaredd diddorol diweddar i ddatblygu gwytnwch meddyliol y disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar eu medrau datrys problemau.

Bu cynnydd arwyddocaol yn lefel presenoldeb disgyblion eleni. Cyn hynny, bu cynnydd graddol ym mhresenoldeb dros y pedair blynedd ddiwethaf; fodd bynnag, roedd y gyfradd bresenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy’n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol. Caiff y disgyblion ddewis eang o weithgareddau awyr agored a chlybiau ar ôl ysgol.

Ar ddechrau pob thema, mae’r disgyblion yn cael dewis pa agweddau i’w hastudio ac mae hyn yn fodd iddynt deimlo perchnogaeth a balchder yn eu gwaith. Mae’r cynllunio yn fanwl gyda gwerthusiadau wythnosol yn bwydo mewn i’r cynlluniau dilynol.

Mae’r medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl yn cael lle amlwg yn y cynllunio ac yn rhan greiddiol o’r rhan fwyaf o’r gwersi. Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen a’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Eisoes, mae’r athrawon wedi datblygu system effeithiol i olrhain cynnydd a dilyniant y Fframwaith o fewn yr ysgol. Mae’r Wythnos Fathemateg yn hybu’r defnydd o rifedd mewn llawer o sefyllfaoedd pob dydd o fewn a thu allan i’r ysgol. Mae’r gweithgareddau hyn yn cryfhau’r cydweithio agos rhwng yr ysgol a’r cartref. Fodd bynnag, ar adegau, nid oes digon o wahaniaethu yn y cynllunio er mwyn rhoi her briodol i bob disgybl.

Mae gan y dimensiwn Cymreig rôl ganolog ym mywyd yr ysgol. Mae’r ysgol yn gwahodd Cymry enwog a llwyddiannus, o wahanol feysydd poblogaidd, i hybu’r agwedd hon yn effeithiol. Er enghraifft, bu Shane Williams a Ben Davies yn yr ysgol i sôn am eu profiadau yn y byd chwaraeon. Mae gan y pwyllgor eco lais amlwg yn yr ysgol o ran materion ailgylchu, arbed ynni a gwastraff. Mae’r aelodau yn ymfalchïo yn eu gwaith. Mae disgyblion yr ysgol hefyd wedi cynnal digwyddiadau elusennol i godi arian i bobl yr Affrig ac Wythnos Masnach Deg. Mae hyn yn fodd iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae’r addysgu’n effeithiol ar draws yr ysgol. Defnyddia’r rhan fwyaf o athrawon amrywiaeth dda o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a ffocws clir ar atgyfnerthu medrau’r disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae’r athrawon yn cynnig tasgau diddorol, cyflymder da a disgwyliadau uchel o ran cyflawniad ac ymddygiad disgyblion. Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol dda. Maent yn modelu iaith glir ac yn drilio iaith newydd yn gyson yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn codi safonau’r Gymraeg.

Defnyddia’r holl athrawon ystod helaeth o adnoddau pwrpasol, gan gynnwys offer TGCh, yn llwyddiannus i gefnogi’r dysgu ac addysgu. Mae’r rhan fwyaf o wersi wedi eu cynllunio’n fanwl, er nad yw’r disgwyliadau bob amser yn ddigon heriol i’r plant uwch eu gallu.

Mae perthynas ofalgar rhwng yr oedolion a’r disgyblion yn creu ethos gweithgar ac yn cynnig cefnogaeth effeithiol i’r disgyblion. Mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn cydweithio’n llwyddiannus fel tîm. Mae’r cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu’n effeithiol at ansawdd dysgu’r disgyblion ac maent yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion unigol.

Defnyddia’r holl athrawon amrywiaeth dda o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eu gwersi. Maent yn cynnig cyfleoedd addas i’r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu’r amcanion ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda’r disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Maent hefyd yn marcio gwaith y disgyblion yn fanwl a chyson. Fodd bynnag, nid yw’r sylwadau ysgrifenedig bob amser yn ddigon manwl i gynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella safon eu gwaith.

Mae athrawon yn gwneud defnydd helaeth o ddata i fonitro cynnydd y disgyblion yn ofalus. Mae system olrhain cynnydd effeithiol yn weithredol ar draws yr ysgol. Gwneir defnydd da o asesiadau safonol i dargedu ymyrraeth briodol i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn.

Mae’r staff yn llunio adroddiadau defnyddiol yn flynyddol i rieni a gofalwyr ar gynnydd y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar sy’n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Trwy’r gwasanaethau boreol, cynigia’r ysgol gyfleoedd priodol i ddisgyblion fyfyrio. Mae’r amrywiaeth dda o waith allgyrsiol yn y gymuned ehangach yn hybu annibyniaeth a blaengaredd disgyblion.

Hyrwydda’r ysgol iechyd a lles y disgyblion yn dda ac mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac mae gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddelio ag unrhyw achosion o fwlïo.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd helaeth, pwrpasol o arbenigedd asiantaethau allanol fel yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a’r gwasanaeth lles er mwyn cefnogi disgyblion.

Mae systemau a chynlluniau cadarn, effeithiol ar waith i gynyddu presenoldeb.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar ac mae cyswllt agos gyda’r rhieni yn cryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn. Mae map darpariaeth ar gyfer pob dosbarth yn sicrhau bod pob athro yn gwbl ymwybodol o anghenion unigolion. Mae’r ddarpariaeth yn cael ei monitro yn dymhorol gan y cydlynydd er mwyn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn gyson ac effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r her yn briodol bob amser.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol, gofalgar ac awyrgylch cartrefol, cynnes a hapus yn perthyn i Ysgol Blaendulais. Caiff pob disgybl gyfle i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol ac mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau cyfle cyfartal.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau sydd o ansawdd priodol ac sy'n cael eu defnyddio'n addas. Mae arddangosfeydd deniadol a lliwgar yn symbylus. Mae'r gwaith a llwyddiannau'r disgyblion sy'n cael eu harddangos yn ennyn balchder yn y disgyblion.

Mae'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen yn cynnig cyfleoedd amrywiol a diddorol i'r disgyblion. Mae'r ardal werdd y tu ôl i'r ddarpariaeth meithrin yn rhoi cyfle i ddisgyblion dyfu llysiau a blodau. Mae disgyblion ac aelodau o'r gymuned wedi cydweithio'n dda i wella a chyfoethogi ardaloedd allanol yr ysgol.

Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer yr ysgol. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae ei harweinyddiaeth gadarn yn sicrhau bod pob agwedd ar fywyd yr ysgol yn cael dylanwad effeithiol ar safonau a lles disgyblion. Mae'n sicrhau disgwyliadau uchel ar gyfer gwelliant, ac yn herio staff yn gadarnhaol ac yn llwyddiannus.

Mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus hapus, ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir. Drwy ddadansoddi ystod eang o ddata perfformiad, mae gan yr athrawon ddealltwriaeth drwyadl o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu o fewn gwersi yn rhan naturiol o waith yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth briodol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cynyddu eu dealltwriaeth o faterion cwricwlaidd ac maent yn ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddi data perfformiad a'r adroddiad hunanarfarnu. Maent yn dechrau herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella ond nid yw'r corff yn llwyr gyflawni ei ddyletswyddau statudol, er enghraifft nid yw adroddiad blynyddol y corff llywodraethol yn cynnwys manylion am hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae’r broses hunanarfarnu wedi gwreiddio yn llwyddiannus ym mywyd yr ysgol. Mae'r dadansoddiad o ddata yn rhan annatod o'r broses.  Casgla’r ysgol ystod eang o dystiolaeth yn effeithiol gan gynnwys arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a gwrando ar safbwyntiau disgyblion a rhieni.  Mae'r prosesau hyn wedi helpu'r ysgol i adnabod yn glir ei chryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn dangos bod yr arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda.  Mae deilliannau’r prosesau hunanarfarnu yn llywio blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol yn llwyddiannus.  Mae'r cynllun yn canolbwyntio’n dda ar godi safonau ac ehangu’r ddarpariaeth.  Cyfeiria’r cynllun yn effeithiol at y camau i’w cymryd, y meini prawf llwyddiant, amseriad a chyfrifoldeb yn ogystal â’r trefniadau monitro a chyllidebu.  Bron yn ddieithriad, mae'n cynnwys targedau mesuradwy buddiol mewn perthynas â chynnydd a gwelliannau mewn safonau disgyblion.

Mae cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon ac mae’r rhain yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella’r ysgol.  Maent yn bwydo nôl i weddill y staff wedi mynychu cyrsiau ac yn rhannu arfer dda yn effeithiol.  Datblygir diwylliant o gydweithio fel tîm yn dda ac mae hyn yn helpu’r ysgol i dyfu fel cymuned ddysgu effeithiol.  Mae rhwydweithio cyson a chadarn gydag ysgolion y dalgylch yn hyrwyddo dealltwriaeth y staff a gwella’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.  Mae cyswllt cydweithredol cadarn rhwng yr ysgol a’r rhieni sy’n sicrhau bod gan rieni ran allweddol yn addysg eu plant.

Mae ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau antur allanol yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol i hybu annibyniaeth a mentergarwch y disgyblion.  Mae’r cyswllt cryf gyda’r awdurdod lleol ac ysgolion eraill y dalgylch wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth addysgol ar draws yr ysgol.

Mae’r trefniadau da ar gyfer trosglwyddo disgyblion i’r ysgol uwchradd yn paratoi’r disgyblion hŷn yn dda iawn ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.  Mae’r athrawon yn cydweithio’n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â’r ysgol uwchradd er mwyn cymedroli a safoni gwaith disgyblion ac i ddarparu hyfforddiant ar y cyd.

Mae’r berthynas agos gyda’r cylch meithrin lleol yn sicrhau bod plant yn llwyddo i ymgartrefu’n fuan yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r ysgol yn elwa o gyswllt adeiladol gyda’r gymuned ac mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol yn rheolaidd.  Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at adnabyddiaeth y disgyblion o’u milltir sgwâr.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon ag arbenigedd i gyflwyno cwricwlwm cyflawn ac i fodloni anghenion unigolion a blaenoriaethau’r ysgol yn llawn.  Mae gan yr holl staff

ddisgrifiadau swydd cyfredol sy'n cyfateb yn briodol i'w rolau. Mae gan athrawon gymwysterau da ac maent yn meddu ar ystod addas o arbenigedd ar draws y cwricwlwm. Caiff staff ategol eu defnyddio'n effeithiol ac fe gânt effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad y disgyblion. Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae gan arweinwyr gynlluniau ariannol cadarn, wedi'u cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion cyfredol. Mae is-bwyllgor cyllid yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio ei phryniant a defnydd o adnoddau'n ofalus. Yn dilyn cyfnod o lefelau uchel o ddyled, mae'r ysgol wedi gweithio'n dda i ddileu'r ddyled eleni. Mae'r ysgol wedi addasu ei phenderfyniadau gwario yn briodol yng ngoleuni newidiadau yn niferoedd y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb i ofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithiol, ac mae'r staff ategol yn rhan o'r broses. Mae rheolwyr yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant addas, ac mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau effeithiol iawn o arfer broffesiynol yn yr ysgol a chydag ysgolion a phartneriaid eraill.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae’r niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn effeithio’n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o’i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i’r nesaf.

Yn 2013, roedd perfformiad y disgyblion sy’n cyflawni’r deilliannau disgwyliedig (deilliant 5 neu uwch) a’r deilliannau uwch (deilliant 6 neu uwch) yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaledd perfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Roedd perfformiad y disgyblion hefyd yn is mewn cymhariaeth â’r cymedr ar gyfer ysgolion eraill sydd â chanran tebyg o ddisgyblion â’r hawl i dderbyn cinio am ddim a chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd perfformiad y disgyblion yn 2013 yn llawer uwch o gymharu â’u perfformiad yn 2012; fodd bynnag, arhosodd yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg.

Ar gyfer y deilliannau uwch (deilliant 6 neu uwch) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn 2013, roedd yr ysgol yn y 50% uwch, ond yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer ei pherfformiad mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. Yn 2012, roedd yr ysgol yn y 50% is am ddatblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol a’r 25% isaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg yn 2013. Dros y ddwy flynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg roedd perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 hefyd wedi ei gosod yn y 25% isaf. Er bod perfformiad ar gyfer yr holl bynciau ar y lefel ddisgwyliedig a’r lefel uwch am y pum mlynedd ddiwethaf yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn gyffredinol roeddent wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg am dair o’r pum mlynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad y dangosydd pwnc craidd wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf am un flwyddyn ynghyd â mathemateg am ddwy flynedd o’r pum mlynedd ddiwethaf.

Ar y lefel uwch, roedd perfformiad yr ysgol yn y Gymraeg wedi codi’r ysgol i’r 50% uwch o ysgolion tebyg am dair o’r pum mlynedd diwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol yn y pynciau eraill yn gyffredinol yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf am bedair o’r pum mlynedd diwethaf.

Nid oes digon o ddisgyblion sydd â’r hawl i brydau am ddim yn yr ysgol i wneud dadansoddiad rhwng eu cyrhaeddiad hwy a’u cymheiriaid. Yn gyffredinol, roedd perfformiad y merched yn well na’r bechgyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, roedd perfformiad y bechgyn yn well na’r merched mewn datblygiad llythrennedd a mathemateg ar y lefel uwch yn y Cyfnod Sylfaen.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 27 | 27<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 27 | 27<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 27 | 27<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 27 | 27<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 27 | 27<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 27 | 27<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 26 | 26<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 27 | 27<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 27 | 27<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 27 | 27<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 26 | 26<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 27 | 24<br>89%<br>84% | 3<br>11%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 65 | 36 | 29 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 65 | 44 | 19 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 68% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 65 | 42 | 22 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 65% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 65 | 40 | 25 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 65 | 22 | 37 | 3 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 34% | 57% | 5% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 65 | 33 | 29 | 0 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 51% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 65 | 46 | 19 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 65 | 36 | 25 | 1 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 55% | 38% | 2% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 64 | 34 | 21 | 6 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 53% | 33% | 9% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 64 | 31 | 29 | 4 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 48% | 45% | 6% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 64 | 34 | 29 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 45% | 0% | 2% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 62 | 26 | 27 | 2 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 42% | 44% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 64 | 32 | 29 | 2 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 45% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 65 | 46<br>71% | 19<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 64 | 27<br>42% | 27<br>42% | 4<br>6% | 1<br>2% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 65 | 30<br>46% | 31<br>48% | 2<br>3% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 58 | 21<br>36% | 23<br>40% | 1<br>2% | 0<br>0% | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 65 | 35<br>54% | 24<br>37% | 5<br>8% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 65 | 36<br>55% | 26<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Jane Thomas | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Mari Phillips | Arolygydd Cymheiriaid |
| Kate Windsor-Brown | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.